Papur y Bwrdd

03 Ebrill 2014

Teitl y Papur	Strategaeth TGCh CNC
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B O 29.14**
Noddwyd y Papur gan: **Awdur y Papur yw:**	Martin Britton – Prif Swyddog Gwybodaeth Martin Britton – Prif Swyddog Gwybodaeth

Pwrpas y Papur:	Darparu Trosolwg o Strategaeth TGCh CNC
Argymhelliad:	
Penderfyniad sydd ei Angen:	Dim - briffio a thrafodaeth yn unig

Effaith: Dylid nodi – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd y strategaeth yn lleihau'r angen am seilwaith ar y safle a'r defnydd o bŵer, yn ogystal â darparu cyfleusterau cynadledda fideo i'r holl ddefnyddwyr, sy'n lleihau'r angen i deithio. **Effaith ar yr Economi**: Byddwn yn darparu swyddi â sgiliau o safon dda i staff CNC a thu hwnt, drwy ein cynllun Prentisiaethau Cyfoeth **Effaith ar y Gymuned**: Yn ogystal â chynnal y cynllun prentisiaeth byddwn yn parhau i greu cysylltiadau â chyrff a chwmnïau eraill o gwmpas Cymru er mwyn helpu i adeiladu Sector TGCh Cymru. **Effaith ar Wybodaeth**: Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cyfleusterau casglu a storio data, a chreu ffyrdd o rannu'r data hwnnw â thrydydd partïon, ar sail fasnachol ac anfasnachol.

Cyflwyniad

1. Bwriedir i'r nodyn briffio hwn ddarparu trosolwg o Strategaeth TGCh CNC yn ystod y pum mlynedd nesaf i'r Bwrdd. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys ystod eang o agweddau, yn cynnwys strategaeth trawsnewid, gwahanu oddi wrth Gyrff Cysylltiedig, datblygu sgiliau, mabwysiadu technolegau newydd a Chynllun Prentisiaeth Cyfoeth. Mae'r Strategaeth yn amcanu at alluogi busnesau i wireddu'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol.

Trosolwg

2. Bydd y Strategaeth TGCh yn arfogi Cyfoeth Naturiol Cymru â seilwaith hyblyg a chyfredol fydd yn cefnogi'r Busnesau wrth gyflawni eu swyddogaethau amgylcheddol yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae'n cofleidio argaeledd technolegau cwmwl, gan symud oddi wrth seilwaith traddodiadol ar y safle, ac mae'n amcanu at alluogi ein defnyddwyr i gael mynediad i systemau unrhyw bryd o unrhyw le.

3. Mae'r ddogfen hon hefyd yn dangos amserlenni a strategaeth y llwybr mudo oddi wrth systemau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, a thuag at seilwaith CNC, gan gynnig profiad ar y cyd i'r defnyddwyr. Bydd yn darparu system gydnerth a dibynadwy sy'n perfformio'n dda fydd yn helpu'n staff i fod ar eu gorau.

4. Mae yna angen cynyddol am fynediad i systemau o leoliadau amrywiol er mwyn cefnogi gweithwyr amgylcheddol, rhai sy'n gweithio ar ddigwyddiadau ac o'r cartref, ac wrth i'r seilwaith wella ar hyd a lled y wlad, mae'n rhaid i ni fod yn barod i fanteisio ar hynny. Bydd CNC hefyd yn cysylltu ei safleoedd drwy Brosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (y ceir disgrifiad ohono yn ddiweddarach) fydd yn helpu ein staff i gydweithio a chyfathrebu'n fwy effeithiol. Yr amcan yw y bydd ein staff yn gallu cydweithio, boed hynny mewn coedwig, ar fynydd, ar draeth, yn gweithio o gartref neu yn y swyddfa.

Cyllid ac Economi

5. Mae nifer o'r canlyniadau a ddisgrifir yn y ddogfen strategaeth yn lleihau ein costau TGCh parhaus yn sylweddol, ac yn ein galluogi i weithio'n effeithlon yn ôl cyllideb a'n helpu i wireddu'r arbedion a ddymunir. Hefyd, mae ein penderfyniad i ddatblygu ein Tîm TGCh ein hunain, yn hytrach na defnyddio cwmni allanol, yn golygu ein bod yn gallu buddsoddi yn sgiliau ein staff TGCh, ac ynghyd â'r cynllun prentisiaeth, bydd hynny'n gwella'r gronfa sgiliau TGCh ehangach yng Nghymru. Mae Cynllun Prentisiaeth Cyfoeth ar gael i gyrff Sector Cyhoeddus, cwmnïau sector Preifat a sefydliadau'r trydydd sector.

Agwedd Amgylcheddol

6. Yn unol â'n hegwyddorion amgylcheddol, rydym yn lleihau ein dibyniaeth ar seilwaith ar y safle a chanolfannau data penodol, ac yn defnyddio adnoddau ar y cyd gan drosoli manteision costau pŵer gwyrddach ac oeri pan fo'n briodol. Ar y bwrdd gwaith, rydym yn gosod Cyfrifiaduron Personol ffactor ffurf fechan sydd ond yn defnyddio 65 wat. Yn ogystal â'r ffactorau hyn, bydd cyflwyno offer cyfathrebu megis Lync, fydd yn caniatáu cynadledda fideo a sain i gyfranogwyr lluosog, yn ogystal â chefnogaeth a rhannu ffeiliau o bell, yn lleihau'n sylweddol yr angen i staff deithio. Gallwn hefyd ddefnyddio'r dull hwn i gyfathrebu â rhanddeiliaid allanol.

Rhannu data

7. Ein gweledigaeth, pan fo'n bosibl, yw ailddefnyddio'r symiau mawr o ddata y mae CNC yn ei gasglu (â llaw a thrwy systemau telemetreg), a sicrhau ei fod ar gael i bartïon allanol ar sail fasnachol ac anfasnachol. Bydd porth data yn cael ei greu i ddarparu mynediad ar-lein drwy'r porwr i'n catalog data.

Gwasanaethau Ar-lein

8. Mae un o'n prif ymrwymiadau'n ymwneud â'n cwsmeriaid, ac yn unol â strategaethau Llywodraeth Ganolog, byddwn yn cyflenwi gwasanaethau ar-lein diogel, hygyrch, effeithiol a hawdd i'w defnyddio i'n cwsmeriaid fydd yn cael eu hintegreiddio â'n prosesau. Mae'n rhaid i'r gwasanaethau ar-lein yma fod yn syml ond eto fod y gorau o'u math, oherwydd i'r rhan fwyaf o'n cwsmeriaid dyma fydd yr unig ddull fyddant yn ei ddewis wrth ryngweithio â ni.

Camau Nesaf

9. Mae'r ddogfen strategaeth wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, bydd yn cael ei hystyried fel dogfen fyw fydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd yr adolygiadau hyn yn ystyried sylwadau fydd yn cael eu derbyn gan yr holl randdeiliaid, newid sefydliadol, strategaethau Cyrff Cyhoeddus Sector Cyhoeddus eraill yng Nghymru a'r DU, canllawiau Swyddfa'r Cabinet a thechnolegau newydd.

Risgiau

10. Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni eitemau'r Strategaeth yn cael eu rheoli drwy'r Awdurdod Dylunio Atebion, a rhaglen Pontio TGCh CNC.

Goblygiadau Ariannol

11. Mae'r strategaeth yn ceisio lleihau costau
    I. Teithio - drwy ddarparu cyfleusterau cynadledda fideo wrth y ddesg i'r holl staff
    II. Contractau TGCh allanol - drwy ddatblygu ein medrusrwydd mewnol a lleihau'r
    III. Canolfannau data (drwy ddefnyddio technolegau cwmwl pan fo'n bosibl)
    IV. Costau a godir gan gyrff cysylltiedig am ddefnyddio eu seilwaith a'u rhaglenni

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

12. Byddir yn craffu ar y systemau TGCh fydd yn cael eu gosod i sicrhau y bodlonir anghenion defnyddwyr a gynorthwyir. Mae cymuned defnyddwyr a Gynorthwyir yn cael ei chynrychioli yng nghyfarfodydd ein Hawdurdod Dylunio Atebion.